# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 27 Ebrill 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Fesul awdurdod lleol, faint o arian sydd wedi bod ar gael i ysgolion ar gyfer llaeth ysgol am ddim ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55944)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae cyfranogiad yng Nghynllun Llaeth Cyfnod Allweddol 1, sy'n darparu llaeth yn rhad ac am ddim i rieni neu ofalwyr, yn wirfoddol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r arian a hawliwyd ar gyfer y cynllun hwn dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf fesul awdurdod lleol; mae'n cynnwys Cymhorthdal yr UE a swm atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

| **Awdurdod Lleol** | **2005-06**<br>**£** | **2006-07**<br>**£** | **2007-08**<br>**£** | **2008-09**<br>**£** | **2009-10**<br>**£** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | 83,452.87 | 81,580.45 | 77,758.05 | 70,593.14 | 65,215.24 | **378,599.75** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | 139,325.84 | 143,654.34 | 139,556.49 | 136,691.85 | 143,977.56 | **703,206.08** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | 135,715.29 | 195,205.23 | 190,852.83 | 258,829.14 | 193,673.74 | **974,276.23** |
| **Cyngor Sir Caerdydd** | 225,735.97 | 324,587.44 | 312,485.46 | 412,587.22 | 349,014.22 | **1,624,410.31** |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | 114,056.27 | 96,419.35 | 100,250.33 | 109,299.10 | 138,458.96 | **558,484.01** |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | 31,592.53 | 66,235.77 | 46,961.28 | 46,471.74 | 74,160.64 | **265,421.96** |
| **Dinas a Sir Abertawe** | 163,500.95 | 155,234.08 | 139,227.97 | 174,689.60 | 158,177.38 | **790,829.98** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | 65,320.93 | 67,863.32 | 88,319.06 | 118,636.17 | 92,762.78 | **432,902.26** |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | 71,756.18 | 67,092.44 | 48,623.97 | 82,987.49 | 83,751.87 | **354,211.95** |
| **Cyngor Sir y Fflint** | 124,420.85 | 121,050.35 | 114,449.60 | 119,598.88 | 132,042.60 | **611,562.28** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Addysg Cyngor Gwynedd** | 63,360.42 | 61,896.48 | 60,190.18 | 59,279.41 | 86,760.33 | **331,486.82** |
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | 20,782.70 | 34,230.91 | 38,259.06 | 40,869.79 | 19,230.04 | **153,462.50** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | 54,123.42 | 36,951.36 | 48,227.75 | 75,954.50 | 64,458.60 | **279,715.63** |
| **Cyngor Sir Fynwy** | 48,712.41 | 51,054.76 | 91,783.79 | 52,669.15 | 99,279.50 | **343,499.61** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | 126,406.17 | 62,998.78 | 119,147.08 | 84,099.52 | 74,858.47 | **467,510.02** |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | 144,074.00 | 192,390.12 | 121,760.49 | 141,178.37 | 80,930.97 | **680,333.95** |
| **Cyngor Sir Benfro** | 60,716.12 | 127,918.43 | 52,266.86 | 92,181.98 | 125,166.73 | **458,250.12** |
| **Cyngor Sir Powys** | 101,859.34 | 93,713.40 | 88,892.11 | 93,434.37 | 95,641.16 | **473,540.38** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | 132,153.47 | 276,600.07 | 192,251.09 | 120,151.40 | 328,974.40 | **1,050.130.43** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | 101,040.04 | 86,712.34 | 77,126.48 | 85,044.10 | 79,826.39 | **429,749.35** |
| **Gwasanaethau Arlwyo Cyngor Bro Morgannwg** | 56,237.29 | 121,526.46 | 99,037.48 | 98,644.47 | 123,190.39 | **498,636.09** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | | 109,480.65 | 68,535.93 | 21,162.53 | 36,721.02 | **235,900.13** |
| **CYFANSWM** | **2,064,343.06** | **2,574,396.53** | **2,315,963.34** | **2,495,053.92** | **2,646,272.99** | **12,096,029.84** |

*Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ynghylch y camgymeriadau diweddar a oedd yn ymwneud â'r Gofrestr Rhoi Organau, ac a oedd y camgymeriadau hyn yn ymwneud ag unrhyw roddwyr o Gymru. (WAQ55931)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Mae fy swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau â Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) ynglŷn â'r mater hwn. Mae Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru wedi ysgrifennu'n ffurfiol at ei Brif Weithredwr i fynegi siom Llywodraeth Cynulliad Cymru bod hyn wedi digwydd a gofyn iddo roi sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Nid yw NHSBT wedi nodi unrhyw roddwyr organau yng Nghymru yr effeithiodd y mater hwn arnynt, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i unioni'r gwallau o ran cofnodi rhoddwyr organau yn achos y rheini a gofrestrodd drwy'r DVLA.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Rhodd Cymru er mwyn annog pobl yng Nghymru i roi organau. (WAQ55932)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Rwyf fi a'm swyddogion yn cynnal trafodaethau parhaus a rheolaidd â Sefydliad Aren Cymru, yr elusen sy'n gweinyddu ymgyrchoedd Rhodd Cymru. Mae'r trafodaethau hyn yn agwedd ar fframwaith ehangach o weithgarwch, dan arweiniad Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru, i godi cyfraddau rhoi organau yng Nghymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau gyda rhanddeiliaid sydd wedi cyflawni statws Grŵp Ymchwil Cofrestredig y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. (WAQ55938)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Cyflwynodd y grwpiau a gafodd statws Grŵp Ymchwil Cofrestredig (RRG) geisiadau fel rhan o gynllun ariannu agored a chystadleuol. Cafodd eu ceisiadau eu hasesu gan swyddogion polisi a phanel allanol o arbenigwyr ymchwil clinigol annibynnol. Cyhoeddwyd y penderfyniadau ac mae fy swyddogion wrthi'n trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus ynghylch y broses barhaus o fonitro eu rhaglenni gwaith a'u cyflawniadau.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl gwaith rhwng 1af Ebrill 2009 a 1af Ebrill 2010 y mae cerbydau'r heddlu wedi cael eu defnyddio yn lle ambiwlansiau ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad yn ôl mis ac ardal BILl. (WAQ55939)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Ni wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ddechrau casglu data ar y defnydd a wneir o gerbydau gwasanaethau brys, heblaw am ambiwlansys, i gludo cleifion i'r ysbyty tan fis Awst 2009. Dangosir y dadansoddiad misol ers mis Awst yn Nhabl 1.

**Tabl 1**

| **Mis** | **Cleifion a gludwyd i'r ysbyty gan wasanaeth brys heblaw am WAST** | **Ardal BILl** |
|---|---|---|
| Awst 2009 | 15 | BILl Aneurin Bevan 14<br>BILl Caerdydd a'r Fro: 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2009 | 2 | BILl Caerdydd a'r Fro: 2 |
| Hydref 2009 | 2 | BILl Aneurin Bevan: 2 |
| Tachwedd 2009 | 5 | BILl Aneurin Bevan: 5 |
| Rhagfyr 2009 | 2 | BILl Aneurin Bevan: 1<br>BILl Caerdydd a'r Fro: 1 |
| Ionawr 2010 | 3 | BILl Cwm Taf: - 3 |
| Chwefror 2010 | 0 | DD/G |
| Mawrth 2010 | 5 | BILl Cwm Taf – 4<br>BILl Aneurin Bevan - 1 |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl lle hyfforddi ar gyfer graddedigion deintyddol newydd sydd wedi cael eu darparu yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 2004 ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul ardal BILl. (WAQ55942)

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

Nid yw'r wybodaeth fanwl y gwnaethoch ofyn amdani ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Cynghrair Twristiaeth Cymru wedi gallu cyflwyno cynnig ar gyfer unrhyw gontractau sy'n ymwneud â gwaith marchnata neu ymchwil sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru naill ai drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru neu ei hasiantaethau. (WAQ55933)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynigion ffurfiol gan Gynghrair Twristiaeth Cymru ar gyfer gwaith ymchwil na gwaith marchnata gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru nac unrhyw asiantaeth. Fodd bynnag, mae cyllid blynyddol Croeso Cymru i'r Gynghrair yn ei gwneud yn ofynnol iddi ymgysylltu â'r Diwydiant a chefnogi gweithgareddau ymchwil Croeso Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Sut mae modd cael gafael ar agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Panel Cynghori ar Dwristiaeth. (WAQ55934)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cyfarfod o'r Panel Cynghori ar Dwristiaeth y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu er mis Medi 2008. (WAQ55935)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Rwyf yn ateb WAQ 55934 a 55935. Dim ond er mwyn cynghori'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am Dwristiaeth y sefydlwyd y Panel Cynghori ar Dwristiaeth. Ni chaiff trafodaethau ei aelodau eu rhyddhau i'r cyhoedd - drwy gyhoeddi agenda/cofnodion ffurfiol - gan y byddai hyn yn cyfyngu ar allu'r aelodau i fod yn gwbl agored yn ystod trafodaethau'r Panel. Fodd bynnag, caiff crynodeb o'r pynciau a'r materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Panel ei gyhoeddi bellach yn e-Gylchlythyr Croeso Cymru i helpu i hysbysu'r diwydiant.

Prif rôl y Panel yw craffu ar bolisïau a gweithgareddau presennol ym maes twristiaeth. Drwy wneud hynny, mae'r Panel yn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol o'r sectorau a'r rhanbarthau y mae'r aelodau yn eu cynrychioli ynghyd â phapurau polisi, cynnydd a thystiolaeth a ddarperir gan Croeso Cymru. Yna mae'n llunio ei farn a'i argymhellion ac rwyf yn cael gwybod amdanynt drwy Croeso Cymru, sy'n gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Panel.
Rwyf wedi bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Panel ers mis Medi 2008, gan i gyfansoddiad y Panel gael ei ddiwygio ym mis Hydref 2009 (roedd y cyn-Banel wedi cwblhau tymor llawn ei benodiad, sef tair blynedd) ac mae'r panel newydd wedi cyfarfod dair gwaith ers hynny. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â rhai Aelodau o'r Panel yn unigol, a byddaf yn mynd i gyfarfod arall o'r Panel yn ystod tymor yr Haf.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw aelodau'r Panel Cynghori ar Dwristiaeth yn derbyn unrhyw dâl cyflog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, os felly, faint. (WAQ55936)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw aelodau'r Panel Cynghori ar Dwristiaeth yn derbyn unrhyw daliadau treuliau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, os felly, ar gyfer beth mae'r taliadau hyn. (WAQ55937)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Rwyf yn ateb cwestiynau 55936 a 55937. Mae dau aelod o'r Panel Cynghori ar Dwristiaeth wedi'u penodi'n ffurfiol o dan Weithdrefnau Penodiadau Cyhoeddus swyddogol ac maent yn cael tâl, sef y Cadeirydd (Ieuan Evans MBE) a'r Athro Eleri Jones, sy'n gweithredu fel academydd annibynnol.
Mae Mrs Evans yn cael tâl o £249 y diwrnod, ac mae'r Athro Jones yn cael tâl o £180 y diwrnod. Cynhelir chwe chyfarfod y flwyddyn, gyda'r Cadeirydd a'r Athro Jones yn cael tâl am ddau ddiwrnod fesul cyfarfod er mwyn ystyried gwaith paratoi.
Caiff yr aelodau eraill eu henwebu gan y diwydiant ac felly nid ydynt yn cael tâl.
Mae hawl gan bob aelod o'r Panel hawlio costau yr eir iddynt ar gyfer teithio i gyfarfodydd, ac fe'u telir yn unol â chyfraddau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido neu'n darparu unrhyw wasanaethau cefnogi ar gyfer Cynghrair Twristiaeth Cymru. (WAQ55940)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae Cynghrair Twristiaeth Cymru wedi'i gael ym mhob un o'r pedair blwyddyn ariannol diwethaf. (WAQ55941)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Rwyf yn ateb WAQs 55940 a 55941. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian i Gynghrair Twristiaeth Cymru. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r arian a dderbyniwyd gan y Gynghrair am y pedair blynedd ariannol ddiwethaf (gan gynnwys TAW).

| **Blwyddyn** | **Swm (£)** |
|---|---|
| 2006-07 | 61,688 |
| 2007-08 | 105,750 |
| 2008-09 | 105,750 |
| 2009-10 | 103,500 |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw cyfanswm gwerth, fesul awdurdod lleol, yr ardrethi busnes a gasglwyd gan ddatblygiadau ffermydd gwynt dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ55943)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Ni ellir dadansoddi'r incwm trethi busnes a gasglwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru mewn cymaint â hyn o fanylder. Dim ond gan awdurdodau lleol unigol y gellid cael y wybodaeth hon.